

30 Medi 2020

Annwyl Breswlydd / Perchennog Busnes,

## **Pâr: Gwelliannau Parth Cyhoeddus Trefynwy – Cam 1**

Fel y cawsoch eich hysbysu yn flaenorol, mae *Griffiths* yn gweithio ar ran Cyngor Sir Fynwy i gwblhau Cam 1 Gwelliannau Parth Cyhoeddus Trefynwy.

Rydym yn awr yn symud i gyfnod terfynol ein gwaith fydd yn cynnwys rhoi wyneb newydd ar rannau o'r B4293 yn cynnwys Sgwâr Agincourt a rhan fechan o Stryd Agincourt. Caiff y gwaith hwn ei wneud rhwng dydd Mercher 7 Hydref a dydd Gwener 9 Hydref 2020. Caiff y ffordd ei pharatoi ar gyfer wyneb newydd yn ystod y dydd ar 7 Hydref a gwneir y gwaith o roi'r wyneb newydd gyda'r nos ar 8 Hydref rhwng 19.00 a 02.00 o'r gloch. Caiff y gwaith gyda'r nos ei wneud dan gau ffordd dros dro a bydd arwyddion clir ar gyfer llwybrau gwyr. Bydd gweithredwr rheoli traffig yng nghyffordd goleuadau Dixon yn ystod y gwaith gyda'r nos i lywio unrhyw draffig. Bydd traffig yn dal i fedru defnyddio'r system un-ffordd bresennol yn ystod y dydd. Byddwn wedyn yn dychwelyd yn ystod y dydd ar ddydd Gwener 9 Hydref i wneud y gwaith llinellau gwyn a byddwn yn defnyddio rheolaeth traffig lleol i leihau tarfu. Gofynnir i chi nodi y gallwch brofi peth tarfu sŵn.

Gofynnwn yn garedig i chi beidio parcio yn yr ardaloedd yma tra bod y gwaith yn mynd rhagddo. Gallwn eich sicrhau y cedwir mynediad i adeiladau a busnesau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ein gwaith, cysylltwch â Georgie Davies, ein Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd os gwelwch yn dda. Gellir cysylltu â Georgie rhwng 08.30 ac 17.30 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy ffonio **\*03300 412 183**. Os ydych yn galw tu allan i'r oriau hyn, neu os na all Georgie ateb, gadewch neges os gwelwch yn dda neu gallwch anfon e-bost at Georgie yn [georgie.davies@alungriffiths.co.uk](mailto:georgie.davies@alungriffiths.co.uk)

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleuster a achosir a hoffem ddiolch i'r gymuned leol am eu hamynedd tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Yn gywir iawn,

Alun Griffiths (Contractors) Cyf

*\*Codir y gyfradd galwadau cenedlaethol ar alwadau i'r rhif hwn a chaiff ei gynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau daear a ffonau symudol..*